

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

Gweinidogion Cymru

Diwygiedig Adroddiad Cyllid
Llywodraeth Leol (RHIF 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol -
Cynghorau)

**DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)**

CYNNWYS

ADRAN UN: PWRPAS YR ADRODDIAD A'R PRIF GYNIGION.....	3
Pennod 1: Pwrpas yr adroddiad	3
Pennod 2: Y Prif Gynigion	4
ADRAN DAU: CYNGHORAU	5
Pennod 3: Cyfrifo swm y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer pob cyngor	5
Pennod 4: Cyfrifo swm yr ardrethi annomestig ar gyfer pob cyngor	8
Pennod 5: Cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer pob cyngor	10
ADRAN TRI – ATODIADAU'R ADRODDIAD	11
Atodiad 1: Symiau o Grant Cynnal Refeniw i'w dalu i Gyrff Penodedig	12
Atodiad 2: Dangosyddion a Gwerthoedd a ddefnyddiwyd wrth Gyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol Cynghorau.....	13
Atodiad 3: Geirfa a Nodiadau Esboniadol.....	28
Atodiad 4: Sail Statudol ar gyfer yr Adroddiad	30

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21

(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

ADRAN UN: PWRPAS YR ADRODDIAD A'R PRIF GYNIGION

Pennod 1: Pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"). Mae'n nodi faint o grant cynnal refeniw (RSG) y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y dylid ei ddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (a elwir yn gynghorau o hyn allan) yng Nghymru yn 2020-21. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sut y caiff Trethi Annomestig eu dosbarthu i gynghorau, ac yn nodi swm yr RSG y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig ei dalu i gyrrff penodedig sydd yn darparu gwasanaethau i lywodraeth leol.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â'r awdurdodau a'r cyrff penodedig sydd yn derbyn y grant (ar wahân i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau). Diwygiwyd Deddf 1988 yn sgil Deddf Llywodraeth Leol 2003 fel bo modd llunio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol ar wahân ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru. Mae Deddf 1988 wedi cael ei diwygio fel ei bod yn cyfeirio at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ar ôl cychwyn adran 1 yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.
- 1.3 Cyn penderfynu ynghylch cyfanswm yr RSG a chyfrannau'r RSG a'r NDR i'w dosbarthu ymhlith awdurdodau a chyrff penodedig sy'n eu derbyn, cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad â chynrychiolwyr priodol ym maes llywodraeth leol, o 16 Rhagfyr 2019 hyd 3 Chwefror 2020, fel sy'n ofynnol yn Neddf 1988.
- 1.4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi newid yng nghydbwysedd y Grant Cynnal Refeniw ac NDR o'r hyn a nodir yn Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2020-2021, gyda chynnydd yn y grant cynnal refeniw a gostyngiad cyfatebol yn yr NDR. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar ddosbarthiad cyffredinol cyllid rhwng cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

Pennod 2: Y Prif Gynigion

Grant Cynnal Refeniw

2.1 Swm yr RSG ar gyfer cynghorau yn 2020-21 yw £3,490,243,600. Yn ogystal â hyn, bwriedir talu £3,303,400 i gyrff penodedig.

2.2 O dan y system ddosbarthu a bennir yn yr adroddiad hwn, cyfrifir swm yr RSG i'w dalu i gyngor unigol ar sail ei Aseiad o Wariant Safonol (SSA) a'i ddyraniad cyllid atodol, gan ystyried swm yr NDR y bydd yn ei dderbyn, a chan dybio swm y dreth gyngor y bydd yn gallu ei chodi. Yn Adran 2 yr adroddiad hwn, disgrifir y drefn ar gyfer y broses hon.

Swm y gellir ei ddosbarthu: Ardrethi annomestig

2.3 £1,036 miliwn yw swm yr NDR sydd ar gael ac y gellir ei ddosbarthu ar gyfer 2020-21, a ddiffinnir fel F yn Adran 2, Pennod 4. Y ffigur ar gyfer y cynghorau felly yw £984.2 miliwn (sef cyfanswm yr NDR llai'r 5 y cant a ddyrannwyd i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu). Disgrifir y sail ar gyfer dosbarthu'r NDR i gynghorau yn Adran 2, Pennod 4.

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cyngorau)

ADRAN DAU: CYNGHORAU

Pennod 3: Cyfrifo swm y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer pob cyngor

- 3.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r sail a ddefnyddir er mwyn i Weinidogion Cymru ddsbarthu swm yr RSG i'w dalu i'r cyngorau yn 2020-21.
- 3.2 Nodir y dull a ddefnyddiwyd er mwyn cyfrifo SSAs ar gyfer cyngorau ym Mhennod 5. Yn rhan o'r cyfrifiad, defnyddir gwybodaeth sy'n adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol pob ardal.
- 3.3 Er mwyn cyfrifo swm y grant a delir i bob cyngor, bydd Gweinidogion Cymru'n cyfrifo'r Aseiad o Wariant Safonol i ddechrau ar gyfer pob awdurdod. I'r diben hwn, tybir na wneir unrhyw ddefnydd o gronfeydd, nac unrhyw gyfraniad i gronfeydd ychwaith.

Cyfrifir hawliad pob cyngor am RSG drwy gymhwysu'r fformiwla ganlynol:

$(A - B - (C \times D))$

Dyma arwyddocâd y llythrennau:

- A yw SSA y cyngor, fel y'i cyfrifwyd yn unol â Phennod 5
- B yw cyfran y cyngor o'r swm y gellir ei ddsbarthu o'r cyfrif ardrethi annomestig, fel y'i cyfrifwyd yn unol â Phennod 4
- C yw elfen y dreth safonol ar gyfer y cyngor, fel y nodir ym mharagraff 3.4
- D yw sylfaen y dreth gyngor i ddibenion yr RSG ar gyfer ardal y cyngor, fel y nodir yn Nhabl 3.1

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

Elfennau treth safonol ar gyfer cyfrifo hawliadau Grant Cynnal Refeniw

3.4 Yr "elfen dreth safonol" briodol ar gyfer cynghorau yw £1,335.76

Sylfaen y dreth gyngor ar gyfer dosbarthu Grant Cynnal Refeniw

3.5 Mae'n ofynnol i bob cyngor gyfrifo ei sylfaen ar gyfer y dreth gyngor yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 33(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y rhain yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (fel y'u diwygiwyd)¹). Rhoddir sylw i ffigurau sylfaen y dreth gyngor a ddarparodd cynghorau i Weinidogion Cymru ar Ffurflen CT1 ar 19 Tachwedd 2019, neu cyn hynny, wrth gyfrifo sylfaen y dreth gyngor i ddibenion dosbarthu'r RSG.

3.6 Nodir ffigurau sylfaen y dreth gyngor i ddibenion dosbarthu'r RSG yn Nhabl 3.1. Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru, ni roddir unrhyw ystyriaeth i ragdybiaethau cynghorau ynghylch cyfraddau casglu. I'r diben o ddsbarthu'r RSG, tybir cyfraddau casglu o 100 y cant. Caiff newidiadau i ffigurau sylfaen y dreth o ganlyniad i gyflwyniad premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor hefyd eu tynnu allan o'r cyfrifiad².

¹ O.S. 1995/2561 a gweler hefyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/2935) (W.27), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 OS 2004/3094 (W.268), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016 O.S. 2016/969 (W.238) (diwygiadau mewn grym o 28 Hydref 2016).

² Gweler Adroddiad yr Is-Grŵp Dosbarthu 2015 – paragraff 27 a Adroddiad yr Is-Grŵp Dosbarthu 2019 – paragraff 21.

**DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cyngorau)**

Tabl 3.1: Sylfaen y dreth cyngor: Nifer yr adeiladau sydd yn gyfwerth â Band D ar gyfer 2020-211

<i>Cyngorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol</i>	Nifer yr adeiladau cyfwerth â Band D
Ynys Môn	30,927
Gwynedd	50,010
Conwy	50,996
Sir Ddinbych	40,395
Sir y Fflint	64,907
Wreccsam	54,342
Powys	62,549
Ceredigion	31,858
Sir Benfro	56,430
Sir Gaerfyrddin	75,904
Abertawe	93,246
Castell-nedd Port Talbot	49,586
Pen-y-bont ar Ogwr	55,608
Bro Morgannwg	62,359
Rhondda Cynon Taf	79,317
Merthyr Tudful	19,175
Caerffili	62,102
Blaenau Gwent	21,750
Torfaen	34,325
Sir Fynwy	46,800
Casnewydd	60,938
Caerdydd	149,103
<i>Cyfanswm Cymru</i>	1,252,626

*Nodiadau: Rhoddir esboniad o eiddo cyfwerth â Band D yn Atodiad 3 - Nodiadau Esboniadol
Gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd cyfanswm sylfaen treth gyngor yr holl
cyngorau yn creu cyfanswm Cymru gyfan.*

¹ Defnyddir Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2020-21 ar gyfer Setliad Terfynol 2020-21

**DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cyngorau)**

Pennod 4: Cyfrifo swm yr ardrethi annomestig ar gyfer pob cyngor

4.1 Yn y bennod hon, manylir ar y sail a ddefnyddir er mwyn i Weinidogion Cymru ddsbarthu'r gyfran briodol o'r swm y gellir ei ddsbarthu ymhlith cyngorau o'r cyfrif ardrethi annomestig ar gyfer 2020-21. Fe'i dosberthir ar sail pro rata yn unol â'r boblogaeth o oedolion yn ardal pob cyngor, drwy ddefnyddio'r fformiwla ganlynol.

$$(F \times 95\%) \times \frac{G}{H}$$

Dyma arwyddocâd y llythrennau:

- F yw'r swm y gellir ei ddsbarthu, a nodir ym mharagraff 2.3 o Bennod 2 yr Adroddiad hwn
- G yw'r boblogaeth breswyl 18 oed a throsodd ym mhob ardal gyngor, am y cyfnod hyd ddiwedd mis Mehefin 2018. Mae'r datganiad diweddaraf yn ystyriol o ganlyniadau Cyfrifiad 2011, fel yr oeddent yn deillio o amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac fel y nodir yn Nhabl 4.1.
- H yw poblogaeth Cymru ar yr un sail a nodir yn G

**DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)**

Tabl 4.1: Y boblogaeth breswyl 18 oed a throsodd ar 30 Mehefin 2018¹

<i>Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol</i>	Ffigur rhagnodedig (wedi'i dalgrynnu)
Ynys Môn	56,520
Gwynedd	100,800
Conwy	95,780
Sir Ddinbych	75,920
Sir y Fflint	123,400
Wrecsam	106,900
Powys	108,400
Ceredigion	60,670
Sir Benfro	101,000
Sir Gaerfyrddin	150,200
Abertawe	199,300
Castell-nedd Port Talbot	114,900
Pen-y-bont ar Ogwr	115,500
Bro Morgannwg	104,800
Rhondda Cynon Taf	190,100
Merthyr Tudful	47,370
Caerffili	142,900
Blaenau Gwent	56,110
Torfaen	73,820
Sir Fynwy	76,570
Casnewydd	118,400
Caerdydd	289,600
<i>Cyfanswm Cymru</i>	2,509,000

Sylwch: Mae'r ffigurau a ddangosir yn y tabl uchod wedi'u talgrynnu i bedwar ffigur arwyddocaol o'r rhai a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd. Gan hynny, efallai na fydd cyfanswm poblogaeth yr holl gynghorau yn creu cyfanswm Cymru

¹ Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2018 yng Nghymru.

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cyngorau)

Pennod 5: Cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer pob cyngor

5.1 Nid oes unrhyw ran o'r RSG ar gyfer cyngorau wedi'i chlustnodi ar gyfer gwasanaethau neilltuol. Nid yw'r tablau perthnasol y cyfeiriwyd atynt yn yr adran hon yn ffurfio sail ar gyfer cyfrifo dyraniad tybiannol, naill ai o'r SSA nac o'r grant i gyngorau unigol ar gyfer gwasanaethau neilltuol.

5.2 Pennir SSA pob cyngor yn dilyn y fethodoleg a argymhellwyd gan yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG), un o is-grwpiau Cyngor Partneriaeth Cymru:

- nodwyd cyfres o ddangosyddion angen drwy fethodoleg y DSG;
- unedau'r SSA yw'r rhai sydd yn briodol i'w cymhwyso i'r dangosyddion a roddir yn y tabl, gan ddilyn methodoleg y DSG; mae maint yr uned yn arwydd o'r lefel briodol o wariant sydd yn gysylltiedig â'r dangosydd hwnnw;
- caiff pob uned SSA a ddangosir ochr yn ochr â dangosydd angen ei llusoi â gwerth y dangosydd angen hwnnw;
- cyfanswm y ffigurau canlyniadol, ynghyd â swm ar gyfer cyllido dyledion a newid ffiniau yw SSA y cyngor hwnnw.

5.3 Nodir y dangosyddion a ddefnyddir i bennu'r SSA ar gyfer pob Cyngor, a diffiniadau ohonynt, yn Adran 3, Atodiad 2.

5.4 Yn Nhabl 4, Atodiad 2, nodir yr SSA a bennwyd ar gyfer pob cyngor yng Nghymru. Mae'r unedau SSA yn Nhabl 1, Atodiad 2 wedi cael eu talgrynnu i dri lle degol, fel bo'n briodol (os yw'r pedwerydd lle degol yn gorffen rhwng 1 a 4, caiff y ffigur ei dalgrynnu i lawr, fel arall caiff ei dalgrynnu i fyny). Gan hynny, efallai na fydd cyfanswm y gwerthoedd a gyfrifwyd drwy ddefnyddio Tabl 1, Atodiad 2, o'u hychwanegu at y ffigurau a ddangosir yn Nhabl 2, Atodiad 2, yn cyfateb yn union â'r symiau a bennwyd yn Nhabl 4, Atodiad 2.

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21

(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

ADRAN TRI – ATODIADAU'R ADRODDIAD

Atodiad 1: Swm y Grant Cynnal Refeniw i'w dalu i Gyrff Penodedig

Atodiad 2: Dangosyddion a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo Aseidiadau o Wariant Safonol cynghorau

Atodiad 3: Geirfa a Nodiadau Esboniadol

Atodiad 4: Sail Statudol ar gyfer yr Adroddiad

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cyngorau)

Atodiad 1: Symiau o Grant Cynnal Refeniw i'w dalu i Gyrrff Penodedig

Swm yr RSG y bydd Gweinidogion Cymru yn talu i bob corff penodedig yw'r swm a ddangosir yn erbyn enw'r corff hwnnw yng ngholofn dde y tabl canlynol:

Corff Penodedig	Swm mewn £oedd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	3,303,400
CYFANSWM	3,303,400

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

Atodiad 2: Dangosyddion a Gwerthoedd a ddefnyddiwyd wrth Gyfrifo Aseidiadau o Wariant Safonol Cynghorau

Tabl 1: Dangosyddion a data a ddefnyddiwyd i gyfrifo SSAs ar gyfer cynghorau

<i>Dangosydd angen</i>	<i>Nodyn</i>	<i>Blwyddyn Data</i>	<i>Uned SSA (£)</i>
Poblogaeth, bob oed	1	2019 & 2018	200.16
Poblogaeth 3 i 11 oed	1	2019 & 2018	63.73
Poblogaeth 3 i 16 oed	1	2019 & 2018	448.59
Poblogaeth 11 i 20 oed	1	2019 & 2018	46.46
Poblogaeth 18 i 64 oed	1	2019 & 2018	187.41
Poblogaeth 16 oed a throsodd	1	2019 & 2018	1.86
Poblogaeth 18 oed a throsodd	1	2019 & 2018	7.18
Poblogaeth o dan 60 oed	1	2019 & 2018	0.44
Poblogaeth 60 oed a throsodd	1	2019 & 2018	10.55
Poblogaeth 85 oed a throsodd	1	2019 & 2018	1,484.79
Poblogaeth 11 i 15 oed a disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 12 i 14	2	2019 & 2018	186.20
Poblogaeth 16 i 18 oed ar wahân i rai sydd yn yr ysgol	3	2019 & 2018	35.79
Poblogaeth uwch	4	2019 & 2017	58.48
Disgyblion ysgol gynradd a disgyblion ysgol feithrin wedi'u modelu	5	2018	3,589.66
Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7 i 11	6	2018	4,395.23
Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 10 ac 11	7	2018	1,095.71
Disgyblion ysgol gynradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim	8	2018, 2017 & 2016	2,231.73
Disgyblion ysgol uwchradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim	9	2018, 2017 & 2016	3,224.29
Ardal fesul mynegai ysgolion cynradd wedi'u modelu	10	2018	399.08
Ardal fesul mynegai ysgolion uwchradd wedi'u modelu	11	2018	96.97
Plant dibynnol ar aelwydydd lle mae'r penteulu mewn dosbarth galwedigaethol isel	12	2001	44.99
Plant dibynnol ar aelwydydd oedolion sengl	13	2001	65.54
Plant dibynnol mewn tai rhent cymdeithasol	14	2001	469.36
Plant dibynnol mewn tai gorlawn	15	2001	901.69
Pensiynwyr yn byw ar eu pen eu hunain ar aelwydydd	16	2001	1,123.32
Pensiynwyr â salwch cyfyngus hirdymor	17	2001	683.66
Aelwydydd lle o'r penteulu yn 18 i 64 oed heb ofalwr	18	2001	94.77
Oedolion 18 i 64 oed mewn grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn	19	2001	205.80
Y boblogaeth 18 oed mewn wardiau a chanddyn ddwysedd wedi'i bwysoli sydd yn fwy na chyfartaledd Cymru	20	2001	98.40
Trothwy gwasgariad 2,500 (1991)	21	1991	0.01
Trothwy gwasgariad 5,000 (1991)	21	1991	0.02
Trothwy gwasgariad 300 (2001)	21	2001	9.42
Trothwy gwasgariad 7,500 (2001)	21	2001	1.12
Trothwy anheddiad 1,000	22	1991	109.21
Trothwy anheddiad 7,500	22	1991	48.75
Trothwy anheddiad 12,500	22	1991	3.91

**DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)**

Dangosydd angen	Nodyn	Blwyddyn Data	Uned SSA (£)
Trothwy anheddiad 30,000	22	1991	13.21
Trothwy anheddiad 40,000	22	1991	12.45
Poblogaeth o fewn trothwy anheddiad o 50,000	23	1991	20.07
Cyfanswm hawl wyr (ddim mewn cyflogaeth) sy'n hawlio cymhorthdal incwm, lwfans ceisio swydd, credyd pensiwn neu credyd cynhwysol.	24	2019	155.03
Plant dibynnol mewn teuluoedd heb waith	25	2017	3,269.33
Hawl wyr (ddim mewn cyflogaeth) cymhorthdal incwm, lwfans ceisio swydd, credyd pensiwn neu credyd cynhwysol 18 i 64 oed	26	2019	291.55
Hawl wyr cymhorthdal incwm, lwfans ceisio swydd neu credyd pensiwn 65 oed a throsodd	27	2019	881.38
Hawl wyr lwfans anabledd difrifol, lwfans byw i'r anabl neu daliad annibyniaeth bersonol, 18 i 64 oed	28	2019	697.58
Nifer y marwolaethau o bob achos	29	2018	-83.75
Poblogaeth o oedran gwaith wedi'i phwysoli yn erbyn mynegai	30	2004, 2018 & 2019	17.94
Cyfanswm y penderfyniadau ynghylch digartrefedd	31	2016	1,128.13
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Tai	32	2020-21	233.19
Ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd	33	2018-19	277.34
Hyd ffyrdd trefol	34	2019	1,743.92
Hyd ffyrdd wedi'i bwysoli	35	2019	1,261.71
Llif traffig	36	2018	0.00
Unedau goleuadau stryd	37	2019	79.09
Hyd y forlin a amddiffynnir drwy ddulliau artiffisial	38	2018/19	13,845.85
Llongau yn cyrraedd porthladdoedd	39	2018	58.96
Pob annedd	40	2018	33.63
Safleoedd bwyd	41	2018	134.86
Safleoedd masnachu	42	2018	21.67
Ardollau draenio tir	43	2019-20	1.00
Ardollau parc cenedlaethol	44	2020-21	1.00
Grant Amddifadedd	45	2000	1,000.00
Derbynwyr Budd-daliadau Tai	46	2016-2018	38.45
Gwariant Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	47	2018-19	0.94
Llwyth Achosion Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	48	2018-19	17.42
Grant Byw'n Annibynnol Cymru	49	2018-19	0.51

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

Nodiadau ar gyfer Tabl 1

Diffiniadau o ddangosyddion a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol cynghorau

[Sylwch: ffurflenni Llywodraeth Cymru yw'r ffurflenni y cyfeirir atynt ac a ddefnyddiwyd i gasglu data ystadegol]

1. Poblogaeth

I ddiben yr Adroddiad hwn, poblogaeth ardal ac, oni nodir fel arall, cyfartaledd o y nifer yr unigolion o unrhyw ddisgrifiad mewn ardal fydd y swm a ragamcennir ar 30 Mehefin 2019 ar sail ffigurau 2014, fel y cyfrifir gan Lywodraeth Cymru, fel unigolion sydd fel arfer yn preswyllo yn yr ardal honno, neu'r swm sydd yn deillio o'r rhagamcanion hynny ac yr boblogaeth ym mhob ardal gyngor, am y cyfnod hyd ddiwedd mis Mehefin 2018, wedi'u deillio o amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol . Yn ychwanegol, mae amcanestyniadau poblogaeth Wrecsam wedi ychwanegu atynt amcangyfrif o'r boblogaeth carchar ar gyfer CEM Berwyn, a gafwyd o'r mis Mehefin cyn y flwyddyn ddata (ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) a'i ddosrannu ar draws y grwpiau oedran yn ôl cyfran gyfartalog y carcharorion gwrywaidd ar draws y DU am y flwyddyn ariannol yn diwedd Mehefin o'r flwyddyn ddata (ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder).

2. Y boblogaeth 11 i 15 oed a disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 12 i 14

Poblogaeth yr ardal gyngor (gweler nodyn 1) ynghyd â nifer y disgyblion ym mis Ionawr ym mlwyddyn data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mlynnyddoedd 12 i 14 mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn yr ardal gyngor (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan gynghorau) yn ogystal ag Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

3. Poblogaeth 16 i 18 oed heblaw yn yr ysgol

Rhagamcan o boblogaeth yr ardal gyngor (gweler nodyn 1) llai nifer y disgyblion ym mis Ionawr ym mlwyddyn data'r CYBLD ym mlynnyddoedd 12 i 14 mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn ardal y cyngor (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan gynghorau) yn ogystal â'r rhai hynny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol.

4. Poblogaeth uwch

Cyfanswm poblogaeth ardal y cyngor (gweler nodyn 1) plws cyfartaledd nifer nosweithiol yr ymwelwyr dros nos o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt, a cyfartaledd nifer dyddiol yr ymwelwyr dydd, ar sail amcangyfrifon a ddarparwyd drwy Fodel Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough (a dynnwyd o wybodaeth a gasglwyd gan Global Tourism Solutions (UK) Ltd wrth gyhoeddi 'STEAM in Wales').

5. Disgyblion ysgol gynradd a disgyblion ysgol feithrin wedi'u modelu

Nifer y disgyblion 4 oed a throsodd ym mis Ionawr ym mlwyddyn y data mewn ysgolion cynradd a meithrin a gynhelir, ac eithrio ysgolion arbennig yn ardal y cyngor, plws disgyblion 5 i 10 oed, gan gynnwys yr oedrannau hynny, mewn ysgolion annibynnol, ac eithrio ysgolion arbennig ac addysg arbennig y mae'r cyngor yn talu ffioedd addysgu llawn ar eu cyfer, plws

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cyngorau)

y rhai hynny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol. Mae amcangyfrif ar gyfer disgyblion meithrin 3 oed hefyd wedi'i gynnwys drwy gymryd poblogaeth y grŵp oedran o fewn y cyngor a gostwng y swm hwnnw yn gymesur â chyfran y disgyblion 3 oed mewn ysgolion meithrin yng Nghymru gyfan. Rhoddwyd pwysoliad o hanner i ddisgyblion rhan-amser (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan gynghorau).

6. Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7 i 11

Nifer y disgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 11 ym mlwyddyn y data mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn ardal y cyngor, ac eithrio ysgolion arbennig; plws disgyblion 11 i 15 oed mewn ysgolion annibynnol y mae'r cyngor yn talu ffioedd addysgu llawn ar eu cyfer, ac eithrio ysgolion arbennig ac addysg arbennig (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan gynghorau) yn ogystal â'r rhai hynny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol.

7. Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 10 ac 11

Nifer y disgyblion ym mlynnyddoedd 10 ac 11 ym mlwyddyn y data mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn ardal y cyngor, ac eithrio ysgolion arbennig; plws disgyblion mewn ysgolion annibynnol y mae'r cyngor yn talu ffioedd addysgu llawn ar eu cyfer, ac eithrio ysgolion arbennig ac addysg arbennig (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan gynghorau) yn ogystal â'r rhai hynny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol.

8. Disgyblion ysgol gynradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Cyfartaledd tair blynedd o nifer y disgyblion ar y gofrestr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mis Ionawr ym mhob blwyddyn o'r blynnyddoedd data mewn ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd a gynhelir, a oedd yn mynychu'r ysgol o'r flwyddyn dderbyn ymlaen, yn ardal y cyngor (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD) yn ogystal â chyfartaledd tair blynedd â'r rhai hynny sy'n derbyn addysg y tu allan i'r ysgol o dan 11 mlwydd oed ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o'r blynnyddoedd data.

9. Disgyblion ysgol uwchradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Cyfartaledd tair blynedd o nifer y disgyblion ar y gofrestr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mis Ionawr ym mhob blwyddyn o'r blynnyddoedd data mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, a oedd yn mynychu'r ysgol o flwyddyn 7 i 11, yn ardal y cyngor (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD), yn ogystal â chyfartaledd tair blynedd â'r rhai hynny sy'n derbyn addysg y tu allan i'r ysgol rhwng 11-15 oed ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

10. Ardal fesul mynegrif ysgolion cynradd wedi'u modelu

Arwynebedd y tir wedi'i rannu â nifer wedi'i foddelu o ysgolion cynradd o fewn y cyngor. Diffinnir arwynebedd y tir fel arwynebedd tir y marc penllanw mewn hectarau, fel yr oedd ar ddiwedd mis Ebrill y flwyddyn honno. Cyfrifir y data gan yr Uned Gartograffeg, Llywodraeth Cymru, drwy ddefnyddio data Llinell Derfyn yr Arolwg Ordnans. Cyfrifir y nifer wedi'i foddelu

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cyngorau)

o ysgolion drwy ddefnyddio dulliau atchwel, gan ystyried nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir (gweler nodyn 5) a'r dangosydd poblogaeth aneddiadau â throthwy o 1,000 (gweler nodyn 22). Defnyddir niferoedd wedi'u modelu o ysgolion yn hytrach na niferoedd gwirioneddol, er mwyn osgoi cymhellion gwrthnysig. Mae papur 41 (2000) yr Is-grŵp Dosbarthu yn disgrifio sut i gyfrifo'r nifer wedi'i foddelu o ysgolion.

11. Arwynebedd fesul mynegrif ysgolion uwchradd wedi'u modelu

Arwynebedd y tir wedi'i rannu â nifer wedi'i foddelu o ysgolion uwchradd o fewn y cyngor. Diffinnir arwynebedd y tir fel arwynebedd tir y marc penllanw mewn hectarau, fel y nodwyd uchod. Cyfrifir y data gan yr Uned Gartograffeg, Llywodraeth Cymru, drwy ddefnyddio data Llinell Derfyn yr Arolwg Ordnans. Cyfrifir y nifer wedi'i foddelu o ysgolion drwy ddefnyddio dulliau atchwel, gan ystyried nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd a gynhelir (gweler nodiadau 6 a 7) a'r dangosydd poblogaeth aneddiadau â throthwy o 7,500 (gweler nodyn 22). Defnyddir niferoedd ysgolion wedi'u modelu, yn hytrach na'r niferoedd gwirioneddol er mwyn osgoi cymhellion gwrthnysig. Mae papur 50 (2000) yr Is-grŵp Dosbarthu yn disgrifio'r dull o gyfrifo'r nifer wedi'i foddelu o ysgolion.

12. Plant dibynnol ar aelwydydd lle bo'r penteulu yn Nosbarthiad Economaidd-gymdeithasol 6, 7 neu 8 yr Ystadegau Gwladol.

Nifer y plant dibynnol sydd yn byw ar aelwydydd lle bo'r penteulu wedi'i ddsbarthu'n unigolyn sydd mewn galwedigaeth lled-arferol, galwedigaeth arferol, sydd heb weithio erioed, neu sydd wedi bod yn ddi-waith ers cyfnod hir (NS-SeC, 7 neu 8) (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

13. Plant dibynnol ar aelwydydd oedolion sengl

Nifer y plant dibynnol sy'n byw ar aelwydydd lle nad oes ond un oedolyn yn preswyllo yno (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

14. Plant dibynnol mewn tai rhent cymdeithasol

Nifer y plant dibynnol sy'n byw mewn tai rhent cymdeithasol (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

15. Plant dibynnol mewn tai gorlawn

Nifer y plant dibynnol sy'n byw mewn tai gorlawn (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

16. Pensiynwyr yn byw ar eu pen eu hunain ar aelwydydd

Nifer yr unigolion oed pensiwn (dynion a menywod 65 oed a throsodd) sydd yn byw ar eu pen eu hunain ar aelwydydd (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

17. Pensiynwyr â salwch cyfyngus hirdymor

Nifer y bobl oed pensiwn (dynion a menywod 65 oed a throsodd) sydd fel arfer yn preswyllo yn ardal y cyngor, a chanddynt salwch cyfyngus hirdymor (Cyfrifiad Poblogaeth 2001)

18. Aelwydydd (lle bo'r penteulu yn 18 i 64 oed) heb ofalwr

Nifer yr aelwydydd sydd yn cynnwys unigolyn â salwch cyfyngus hirdymor (lle bo'r penteulu rhwng 18 a 64 oed) ac sydd heb ofalwr (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

19. Oedolion o grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn

Nifer y bobl 18 i 64 oed mewn grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn, fesul pen o'r boblogaeth 18 i 64 oed (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

20. Y boblogaeth dan 18 oed mewn wardiau lle ceir dwysedd poblogaeth wedi'i bwysoli sydd yn fwy na chyfartaledd Cymru

Cyfanswm yr unigolion dan 18 sydd fel arfer yn byw yn ardal y cyngor, sydd yn byw mewn wardiau lle byddai lluosï'r boblogaeth dan 18 oed sydd fel arfer yn byw yno â'r holl boblogaeth sydd fel arfer yn byw yno a rhannu hynny â maint yr ardal mewn hectarau, yn creu cyfanswm sydd yn uwch na chyfartaledd holl wardiau Cymru (Cyfrifiad Poblogaeth 2001)

21. Gwasgariad, gyda throthwyon amrywiol

Dyma fesur wedi'i ddylunio i gipio gwybodaeth am y costau amser a phellter ychwanegol sydd yn gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau i gymunedau sydd ar wasgar. Cyfrifir paramedr aneddiadau creiddiol ym mhob awdurdod, gan ddiffinio "prif" aneddiadau ar sail meini prawf yn gysylltiedig â throthwy amrywiaeth poblogaeth (adroddiad a gomisiynwyd gan Pion Economics ac NWRRL ar gais Cynulliad Cenedlaethol Cymru "The Derivation of Population Distribution Measures for Use in the Calculations of SSAs in Wales").

22. Anheddiad, gyda throthwyon amrywiol

Y boblogaeth ym mhob awdurdod y tu allan i aneddiadau uwch na'r trothwy penodedig ar gyfer maint poblogaeth, drwy ddefnyddio'r ffigurau poblogaeth o Gyfrifiad Poblogaeth 1991 (adroddiad a gomisiynwyd gan Pion Economics ac NWRRL ar gais Cynulliad Cenedlaethol Cymru "The Derivation of Population Distribution Measures for Use in the Calculations of SSAs in Wales").

23. Poblogaeth o fewn trothwy anheddiad

Y boblogaeth ym mhob awdurdod o fewn aneddiadau uwch na'r trothwy penodedig ar gyfer maint poblogaeth, drwy ddefnyddio'r ffigurau poblogaeth o Gyfrifiad Poblogaeth 1991 (adroddiad a gomisiynwyd gan Pion Economics ac NWRRL ar gais Cynulliad Cenedlaethol Cymru "The Derivation of Population Distribution Measures for Use in the Calculations of SSAs in Wales").

24. Cyfanswm yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm), Derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm, Hawlwyr Credyd Pensiwn neu rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth)

Amcangyfrif o nifer yr hawlwy'r Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm), derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm, hawlwy'r Credyd Pensiwn, neu rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth), gan ddefnyddio ffigurau chwarterol a'u rhannu i greu cyfartaledd dros 12 chwarter hyd at ac yn cynnwys mis Chwefror ym mlwyddyn y data (NOMIS ac Stat-Xplore)

25. Plant dibynnol mewn teuluoedd heb waith

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

Amcangyfrif o nifer y plant mewn teuluoedd heb waith, yn ystod blwyddyn y data (Cyllid a Thollau ei Mawrhydi).

26. Nifer yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm), Derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm, Hawlwyr Credyd Pensiwn, neu rhai sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth) 18-64 oed

Amcangyfrif o nifer yr hawlwyd Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm) derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm, hawlwyd Credyd Pensiwn neu rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth) sydd yn 18-64 oed, gan ddefnyddio ffigurau chwarterol a'u rhannu i greu cyfartaledd dros 12 chwarter hyd at ac yn cynnwys mis Chwefror ym mlwyddyn y data (NOMIS a Stat-Xplore).

27. Nifer yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm), Derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm neu Hawlwyr Credyd Pensiwn 65 oed a throsodd

Amcangyfrif o nifer yr hawlwyd Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm) neu derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm neu Gredyd Pensiwn, sydd yn 65 oed a throsodd, gan ddefnyddio ffigurau chwarterol a'u rhannu i greu cyfartaledd dros 12 chwarter hyd at ac yn cynnwys mis Chwefror ym mlwyddyn y data (NOMIS).

28. Nifer yr Hawlwyr Lwfans Anabledd Difrifol, Lwfans Byw i'r Anabl, neu Hawlwyr Taliad Annibyniaeth Bersonol sydd yn 18-64 oed

Amcangyfrif o nifer yr hawlwyd Lwfans Anabledd Difrifol, Lwfans Byw i'r Anabl neu hawlwyd Taliad Annibyniaeth Bersonol sydd yn 18-64 oed, gan ddefnyddio ffigurau chwarterol a'u rhannu i greu cyfartaledd dros 12 chwarter hyd at ac yn cynnwys mis Chwefror ym mlwyddyn y data (NOMIS ac Stat-Xplore).

29. Nifer y marwolaethau o bob achos

Marwolaethau fesul 'awdurdod lleol preswyl arferol', gan gynnwys niferoedd a chymarebau marwolaeth safonedig (SMRs) yn ôl rhyw (cofrestrïadau 2014), a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

30. Poblogaeth Oedran Gwaith wedi'i Phwysoli ar sail Mynegrif

Mynegrif sydd yn deillio o ddadansoddiad ystadegol o Werth Ychwanegol Gros wedi'i luosogi â'r boblogaeth oed gwaith (gweler nodyn 1), a nodir ym mhapur 35 yr Is-grŵp Dosbarthu (2007).

31. Cyfanswm y penderfyniadau ynghylch digartrefedd

Cyfartaledd dros dair blynedd o gyfanswm blynyddol y penderfyniadau a wneir ynghylch digartrefedd yn ôl cymhwysedd ac awdurdod unedol (fel yr adroddodd cynghorau wrth Lywodraeth Cymru ar ffurflen WHO12) hyd at ac yn cynnwys mis Mawrth y flwyddyn data.

32. Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (GCF) Tai

Darperir GCF i awdurdodau unedol ar sail cyllid heb ei neilltuo. Caiff cyfrifiad y cyllid Tai ei ddsbarthu ar sail fformiwla drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion fel cyfanswm y

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

costau atgyweirio (Arolwg Byw yng Nghymru 2008), amcangyfrifon o'r stoc o anheddau preifat, symiau grant ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) a data Cyfrifiad 2001.

33. Ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd

Nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn ystod pob blwyddyn ariannol, ar ffurf cyfartaledd dros dair blynedd ariannol hyd at ac yn cynnwys y flwyddyn a ddaeth i ben ym mlwyddyn y data (fel yr adroddodd cynghorau yn rhan o Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru).

34. Hyd ffyrdd trefol

Cyfanswm yr hyd mewn cilometrau ar 1 Ebrill o flwyddyn y data ar y ffyrdd hynny o fewn ardal y cyngor, ac eithrio cefnffyrdd, yn amodol ar derfyn cyflymder heb fod yn fwy na 40 milltir yr awr (fel y cyfrifwyd o'r amcangyfrifon a adroddwyd gan gynghorau ar ffurflen TP1).

35. Hyd ffyrdd wedi'i bwysoli

Cyfanswm hyd y ffyrdd hynny o fewn ardal y cyngor, ac eithrio cefnffyrdd, mewn cilometrau ar 1 Ebrill o flwyddyn y data, gyda phwysoliad o 3.2 ar gyfer priffyrdd ac 1.0 ar gyfer yr holl ffyrdd eraill lleol (fel y cyfrifwyd o'r amcangyfrifon a adroddwyd gan gynghorau ar ffurflen TP1).

36. Llif traffig

Y 'llif traffig blynyddol' mewn cilometrau cerbyd ar gyfer blwyddyn y data ar brif ffyrdd o fewn ardal y cyngor (fel y cyfrifwyd o amcangyfrifon yr Arolwg Traffig Ffyrdd Cenedlaethol, yr Adran Drafnidiaeth).

37. Unedau golau stryd

Nifer yr unedau golau stryd a adroddwyd yn ardal y cyngor ar 1 Ebrill ym mlwyddyn y data (fel yr adroddodd cynghorau wrth Lywodraeth Cymru).

38. Hyd y forlin a amddiffynnir drwy ddulliau artiffisial

Diffinnir hyn fel cyfanswm hyd y forlin mewn cilometrau, ar 1 Ebrill ym mlwyddyn y data, lle mae gwaith cyfalaf wedi cael ei gyflawni o dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949 neu unrhyw ddeddfwriaeth arall gynharach debyg, ac eithrio'r hydoedd hynny y mae sefydliadau preifat neu gyhoeddus ar wahân i gynghorau yn berchen arnynt ac yn eu cynnal.

39. Llongau yn cyrraedd porthladdoedd

Amcangyfrif o nifer y llongau sydd yn cyrraedd porthladdoedd yn ardal y cyngor ym mlwyddyn y data, ac eithrio llongau a ddefnyddir i gyflenwi, carthu neu ollwng yn y môr (Yr Adran Drafnidiaeth).

40. Anheddau

Nifer yr hereditamentau domestig ar 31 Mawrth ym mlwyddyn y data (Asiantaeth y Swyddfa Brisio).

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

41. Safleoedd bwyd

Nifer yr hereditamentau busnes sydd yn perthyn i'r dosbarthiad Bwyd (fel y'i diffiniwyd gan Lywodraeth Cymru, ac y cytunwyd gan DSG (2000) Papur 55) ar 31 Mawrth ym mlwyddyn y data (Asiantaeth y Swyddfa Brisio).

42. Safleoedd masnachu

Nifer yr hereditamentau busnes a ddosbarthwyd yn safleoedd masnachol, diwydiannol a hamdden ar 31 Mawrth ym mlwyddyn y data (Asiantaeth y Swyddfa Brisio), ac nifer y daliadau fferm economaidd actif yn ystod y mis Mehefin cyn y flwyddyn data.

43. Ardollau draenio tir

Y symiau a godir ar y cyngor gan y Byrddau Draenio Mewnol (IDBs) ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac a geir yn yr Adroddiadau Blynnyddol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr IDBs.

44. Ardollau parc cenedlaethol

Y symiau i'w codi ar gynghorau gan yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol a nodwyd. Os bydd mwy nag un cyngor yn ysgwyddo'r ardoll, fe'i dosrennir yn unol â'r canrannau a nodir yn Rheoliadau Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995 (OS 1995/3019 fel y'i diwygiwyd)¹.

45. Grant Amddifadedd

Mae'r grant amddifadedd blaenorol yn cynnal dyraniad hanesyddol ar sail MALIC 2000.

46. Derbynwyr Budd-daliadau Tai

Y nifer sydd yn derbyn Budd-dal Tai fesul awdurdod lleol, a ddyfynnwyd o'r Echdyniad Budd-dal Tai Unigol o'r Adran Gwaith a Phensiynau' (DWP). Cyfartaledd y 24 mis hyd at y mis Mai yn y flwyddyn pan gymerwyd y data.

47. Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor - Gwariant

Mae'r dangosydd yn seiliedig ar Wariant Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn data a gasglwyd gan Gangen y Polisi Trethu Lleol a Chymorth y Dreth Gyngor o fewn Llywodraeth Cymru.

48. Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor - Llwyth Achosion

Mae'r dangosydd yn seiliedig ar Lwyth Achosion Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn data a gasglwyd gan Gangen y Polisi Trethu Lleol a Chymorth y Dreth Gyngor o fewn Llywodraeth Cymru.

¹Gweler (i) Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 1996 (O.S. 1996/2913); (ii) Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 2000 (O.S.2000/244) (W.2); (iii) y Gorchymyn Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Diwygiadau a Diddymiadau) 2001 (O.S. 2001/3649); ac (iv) Deddf Gwasanaethau Ariannol 2012 (Diwygiadau symiau canlyniadol a darpariaeth drosiannol) gorchymyn 2013 (O.S. 2013/472).

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

49. Grant Byw'n Annibynnol Cymru

Mae'r dangosydd yn seiliedig ar wariant Grant Byw'n Annibynnol Cymru awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn ddata, a gasglwyd gan y Gangen Talu am Ofal o fewn Llywodraeth Cymru.

**DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)**

Tabl 2: Swm i'w ychwanegu at y gwerth a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r fformiwla a nodwyd yn Nhabl 1 ar gyfer cyllido dyledion ac eitemau eraill

<i>Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol</i>	£
Ynys Môn	8,325,045
Gwynedd	15,088,425
Conwy	16,235,620
Sir Ddinbych	13,030,157
Sir y Fflint	15,392,329
Wreccsam	14,122,333
Powys	17,930,249
Ceredigion	11,023,487
Sir Benfro	15,429,011
Sir Gaerfyrddin	20,936,210
Abertawe	24,571,413
Castell-nedd Port Talbot	15,778,543
Pen-y-bont ar Ogwr	15,705,457
Bro Morgannwg	11,677,474
Rhondda Cynon Taf	29,378,732
Merthyr Tudful	6,502,591
Caerffili	23,679,629
Blaenau Gwent	9,026,487
Torfaen	10,586,421
Sir Fynwy	9,126,055
Casnewydd	22,056,390
Caerdydd	32,003,575
Cymru¹	357,605,632

¹ Gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd swm y cyllid ar gyfer dyledion na'r eitemau eraill ar gyfer yr holl gynghorau yn creu'r cyfanswm ar gyfer Cymru.

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

Nodiadau ar gyfer Tabl 2

Mae'r swm a ddangoswyd ar gyfer pob cyngor yn cynnwys yr eitemau canlynol:

1. Addasiad ar gyfer y newidiadau a gyflwynwyd o ran ffiniau ar 1 Ebrill 2005.¹ yn seiliedig ar gyfanswm y boblogaeth breswyl a drosglwyddwyd rhwng yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, fel yr amcangyfrifwyd drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad Poblogaeth 2001.
2. Eifen cyllido dyledion SSAs ar gyfer cynghorau. Elfennau cyllido cyfalaf yw ad-daliadau a llog ar gyfer dyledion cyn ac ar ôl 31/04/04 a gostyngiad mewn grantiau cyllido cyfalaf. Tybir mai 4 y cant yw'r gyfradd ad-dalu a'r gyfradd llog a ddefnyddir yw'r gyfradd llog gyfun ar gyfer 2020-21, a gyfrifir fel 6.7 y cant. Ceir disgrifiad manwl o'r dull cyfrifo ym mharagraffau (a) i (f) isod.

Sylwch: Ym mharagraffau (a) i (f), os nad oes gwybodaeth ond ar gael ar gyfer ardaloedd gwahanol i ardaloedd y cynghorau, dosrennir y symiau i'r cynghorau ar sail nifer y bobl ar 30 Mehefin yn y flwyddyn dan sylw sydd fel arfer yn preswyllo yn yr ardaloedd dan sylw, yn ôl amcangyfrif y Cofrestrydd Cyffredinol, oni chytunwyd ar ddosraniadau gwahanol rhwng cynghorau penodol (fel yr hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru)

(a) Mae terfyn uchaf y credyd tybiannol yn unrhyw flwyddyn yn seiliedig ar yr hyn a nodwyd ar y Ffurflenni Alldro Cyfalaf (5) ar gyfer 31 Mawrth 2004, ac a adroddwyd yn ystod 2005 ar gyfer y cynghorau a'r awdurdodau tân. Nodir y terfynau uchaf tybiedig ar gyfer credyd yn Nhabl 3 yr Atodiad hwn. Gwneir addasiad ar gyfer cymeradwyaethau credyd atodol dwy flynedd, na fanteisiwyd arnynt yn llawn yn ystod y flwyddyn gyntaf o'u cyflwyno, ac yr hysbyswyd y Cynulliad Cenedlaethol amdanynt.

(b) Tybir bod Cynghorau'n ad-dalu 4 y cant o unrhyw derfyn uchaf credyd tybiannol ar ddechrau blwyddyn y setliad, ar drefniant i leihau'r balans. Ychwanegir dyled newydd at derfyn uchaf y credyd tybiannol bob blwyddyn sydd yn gyfwerth â dyraniad yr awdurdod ar gyfer benthyca â chymorth ar gyfer y flwyddyn berthnasol ac a oedd ar gael i Weinidogion Cymru wrth iddynt gyfrifo. Disgrifir y dull hwn o drosglwyddo'r terfyn uchaf tybiannol ymlaen ym mhapur 26 yr is-grŵp dosbarthu (2009).

(c) Pennir taliadau llog ar derfyn uchaf unrhyw greddyd tybiannol mewn perthynas ag (a), fel y cânt eu gostwng drwy'r ad-daliad blynyddol a ddisgrifir yn (b), o ganlyniad i gymhwyso'r gyfradd llog gyfun i derfyn uchaf cyfartaledd cyfanswm y credyd tybiannol yn ystod 2020-21.

(d) Pennir y gydran cyllido cyfalaf ym mhob cyngor mewn perthynas â dyledion a achosir, sef swm:

¹ Y newidiadau a gyflwynwyd i ffiniau yn sgil Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot a Phowys (Cwm-twrch) 2004 (O.S. 2004/2746) (W.244).

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cyngorau)

yr ad-daliadau ar gyfer 2020-21 a ddisgrifir yn (b) a'r taliadau llog a ddisgrifir yn (c),

(e) Mae'r gydran ar gyfer taliadau prydlesu cyn 1990 ac a briodolir i gynghorau yn deillio o wybodaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol i ddilysu'r data a ddarparwyd ar brydlesu ar ffurflenni Alldro Refeniw (AR).

(f) Mae'r gydran ar gyfer grantiau cyllido cyfalaf o ddyledion a ysgwyddwyd ar 31 Mawrth 1990 neu cyn hynny gan ardaloedd pwyllgor prawf ac ardaloedd pwyllgor llys ynadon, ac a briodolwyd i gynghorau, yn deillio o wybodaeth am y swm sydd yn daladwy i bob ardal pwyllgor prawf ac ardal pwyllgor llys ynadon yn y flwyddyn 2020-21, a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd a Gwasanaeth Llysoedd EM.

Y gydran cyllido dyledion yn SSA pob cyngor yw cyfanswm y symiau a ddisgrifir yn (d) ac (e), llai'r swm a ddisgrifir yn (f).

3. Cyllid ar gyfer ymrwymadau a bennwyd ymlaen llaw: Menter Benthycia Llywodraeth Leol - Gwella Priffyrdd; Menter Benthycia Llywodraeth Leol - Ysgolion yr 21ain Ganrif; Cyllido Asedau; Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.

**DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)**

Tabl 3: Terfyn uchaf credyd tybiannol ar 31 Mawrth 2004

<i>Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol</i>	<i>Terfyn uchaf credyd</i>	
	<i>£'000</i>	<i>£ y pen o'r boblogaeth¹</i>
Ynys Môn	74,510	1,093
Gwynedd	126,848	1,075
Conwy	103,051	926
Sir Ddinbych	98,909	1,054
Sir y Fflint	129,337	867
Wreccsam	107,787	836
Powys	142,229	1,109
Ceredigion	78,589	1,040
Sir Benfro	118,705	1,031
Sir Gaerfyrddin	171,392	973
Abertawe	235,308	1,040
Castell-nedd Port Talbot	137,589	1,010
Pen-y-bont ar Ogwr	117,392	896
Bro Morgannwg	98,198	812
Rhondda Cynon Taf	239,134	1,029
Merthyr Tudful	60,243	1,077
Caerffili	152,277	889
Blaenau Gwent	91,140	1,317
Torfaen	96,562	1,064
Sir Fynwy	70,115	810
Casnewydd	138,990	999
Caerdydd	283,897	906
Cymru	2,872,201	978

Nodiadau: Mae'r ffigurau'n cynnwys dosraniad perthnasol ar gyfer terfyn uchaf credyd yr awdurdod tân ac achub. Gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd y terfyn credyd ar gyfer yr holl gynghorau yn creu'r cyfanswm ar gyfer Cymru.

¹ Amcangyfrifon canol-blwyddyn 2003 yw'r ffigurau poblogaeth

**DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1)
2020-21
(Y Setliad Terfynol - Cynghorau)**

Tabl 4: Cyfanswm yr asesiadau o wariant safonol ar gyfer pob cyngor

<i>Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol</i>	Asesiad o Wariant Safonol	
	£	£ y pen o'r boblogaeth ¹
Ynys Môn	142,316,021	2,031
Gwynedd	254,379,802	2,050
Conwy	229,515,945	1,960
Sir Ddinbych	205,889,855	2,155
Sir y Fflint	286,086,978	1,841
Wrecsam	256,883,257	1,852
Powys	267,839,490	2,028
Ceredigion	150,200,228	2,009
Sir Benfro	247,580,569	1,987
Sir Gaerfyrddin	375,548,972	2,008
Abertawe	463,933,779	1,885
Castell-nedd Port Talbot	292,995,856	2,061
Pen-y-bont ar Ogwr	277,406,403	1,925
Bro Morgannwg	244,316,671	1,875
Rhondda Cynon Taf	494,614,977	2,065
Merthyr Tudful	122,422,940	2,050
Caerffili	366,320,011	2,022
Blaenau Gwent	145,116,106	2,087
Torfaen	186,316,891	2,013
Sir Fynwy	160,273,415	1,712
Casnewydd	309,475,246	2,046
Caerdydd	668,212,821	1,819
Cymru	6,147,646,233	1,960

Nodiadau: Gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd SSA yr holl gynghorau yn creu'r cyfanswm ar gyfer Cymru

¹ Fel y'i diffinnir yn nodyn 1, Tabl 1.

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

Atodiad 3: Geirfa a Nodiadau Esboniadol

Mae'r eirfa hon yn cynnig esboniadau o rai o'r termau technegol allweddol a ddefnyddir yn yr adroddiad.

Amodau sy'n effeithio ar gyfrifiad y dreth gyngor Dosberthir yr RSG fel bo modd i bob cyngor bennu yr un dreth gyngor yn fras ar gyfer anheddau sydd wedi'u cynnwys yn yr un band prisio. Ar gyfer pob cyngor, tybir bod sylfaen y dreth gyngor a ddefnyddir i ddsbarthu'r RSG wedi'i chyfrifo'n unol â'r is-ddeddfwriaeth berthnasol (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 OS 1995/2561 (fel y'i diwygiwyd)¹. Yn ail, tybir y bydd cymhwyso adran 35 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("eitemau arbennig i ddibenion adran 34") (fel y'i diwygiwyd) yn golygu bod yr anheddau sydd wedi'u rhestru o fewn yr un band prisio ar draws ardal gyngor gyfan yn talu yr un dreth gyngor.

Ardrethi Annomestig yw'r dreth ar eiddo a delir gan berchnogion a meddianwyr eiddo annomestig. Telir yr holl ardrethi annomestig i gronfa gyfun a weinyddir gan Lywodraeth Cymru i'w hailddosbarthu i Gynghorau a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

Awdurdodau Bilio yw awdurdodau lleol a chanddynt y grym i osod taliadau lleol a chyflwyno biliau am y dreth gyngor ac am ardrethi annomestig, ar eu rhan eu hunain ac ar ran awdurdodau eraill yn yr ardal. Yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yw'r awdurdodau bilio.

Awdurdodau Derbyn yw cynghorau. Telir yr RSG i bob awdurdod derbyn.

Cyrff penodedig yw cyrff sydd yn darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol ac a nodir yn y Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/718) (W.25) (fel y'u diwygiwyd)².

Y Dreth Gyngor ar gyfer Gwariant Safonol yw lefel y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D a fyddai'n cael ei chodi ym mhob rhan o Gymru pe bai'r holl gynghorau a'r heddluoedd yn gwario'n unol â lefel eu SSA. Defnyddir y ffigur hwn i gyfrifo sut y dylai swm yr RSG sydd yn daladwy i gynghorau gael ei rannu rhyngddynt, a hefyd, sut y dylid rhannu swm yr RSG sydd yn daladwy i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

Eiddo cyfwerth â Band D: I ddibenion y dreth gyngor, mae pob eiddo wedi'i brisio yn ôl band. Mae'r bandiau hyn yn amrywio rhwng Band A a Band I, ac mae'r biliau cyngor ar

¹ O.S. 1995/2561 a gweler Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/2935) (W.27), a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 (O.S. 2004/3094) (W.268), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016 O.S. 2016/969 (W.238) (diwygiadau mewn grym o 28 Hydref 2016).

² Gweler y Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003 O.S. (2003/706) (W.85) a Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/764) (W.73).

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

gyfer pob band yn amrywio yn ôl cyfres o luosyddion. Mae'r lluosyddion hyn yn amrywio rhwng chwe rhan o naw am eiddo band A a dwy neu dair rhan o naw ar gyfer eiddo band I, a'r lluosydd ar gyfer eiddo Band D yw un. Nifer yr adeiladau cyfwerth â Band D mewn awdurdod yw cyfanswm yr anheddau domestig yn nhermau eu perthynas â Band D. Er enghraifft, mae un eiddo Band H yn gyfwerth â dau eiddo Band D, gan ei fod yn talu dwbl y dreth gyngor.

Elfen dreth safonol yw cyfran y dreth gyngor ar gyfer gwariant safonol y gellir ei phriodoli i bob dosbarth o blith yr awdurdodau derbyn. Dyma ffigur sy'n cyffredin ar gyfer pob awdurdod o fewn dosbarth. Rhennir yr awdurdodau hyn yng Nghymru i ddau ddsbarth, sef cynghorau a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

Is-grŵp Dosbarthu (DSG) Un o weithgorau Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid y Cyngor Partneriaeth. Mae copïau o'i adroddiadau, ei gyfrifoldebau a manylion ei aelodaeth ar gael o'r Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Cymru.

SSAs (Asesiadau o Wariant Safonol) yw asesiadau tybiannol o angen pob cyngor i wario ar wasanaethau refeniw, ac eithrio grantiau penodol, i ddibenion dosbarthu'r RSG.

Sylfaen y Dreth Gyngor ardal yw nifer yr adeiladau cyfwerth â Band D, ar ôl addasu ar gyfer gostyngiadau ac eithriadau. Mae gostyngiadau ar gael i bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, ac i berchnogion cartrefi nad ydynt yn cael eu defnyddio gan unrhyw un fel prif gartref. Ni chodir y Dreth Gyngor ar gyfer rhai mathau o adeiladau, a elwir yn adeiladau wedi'u heithrio, fel adeiladau nad oes ond myfyrwyr yn byw ynddynt. Ceir disgrifiad o'r dull o gyfrifo sylfaen y dreth gyngor, a'r dull o'i ddefnyddio er mwyn cyfrifo'r RSG ym mharagraff 3.5 yn adran 2 o'r Adroddiad hwn.

DIWYGIEDIG ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2020-21 (Y Setliad Terfynol - Cynghorau)

Atodiad 4: Sail Statudol ar gyfer yr Adroddiad

1. Lluniwyd yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol o dan adran 84G (Adroddiadau cyllid llywodraeth leol) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003"). Cafodd Adrannau 84D a 84P ei chynnwys yn Neddf 1988 yn sgil adran 40 a pharagraff 1 o Atodlen 2 yn Neddf 2003. Bydd yr adroddiad yn cael effaith ar flwyddyn ariannol 2020-21, os yw Cynullid Cenedlaethol Cymru yn penderfynu ei gymeradwyo.

Swm yr RSG a'r ardrethi annomestig a ailddosberthir

2. Yn Adran 84F (Pennu Grant) o Ddeddf 1998, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru bennu swm yr RSG ar gyfer pob blwyddyn ariannol; faint maent yn cynnig ei dalu i'r awdurdodau derbyn (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol), a faint maent yn cynnig ei dalu i gyrrff penodedig.
3. Cyrff penodedig yw cyrff sy'n darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol ac a bennir yn Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003/706) (W.85) a Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/764) (W.73).

Sail ar gyfer dosbarthu'r RSG

4. Yn sgil Adran 84G, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad yn nodi eu penderfyniadau o dan adran 84F, a nodi ar ba sail y bydd yr RSG yn cael ei ddosbarthu ymhlith yr awdurdodau derbyn a'r cyrff penodedig.

Ardrethi annomestig a ailddosberthir

5. Cafodd baragraffau 9A, 11A, 11B, 11C a 14A eu chynnwys yn Atodlen 8 Deddf 1988. Ym Mharagraff 9A (Blynyddoedd lle llunnir dau adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer Cymru), mae'n ofynnol i Weinidogion nodi yn yr adroddiad cyntaf y swm sydd i'w ddosbarthu o'r cyfrif ardrethi annomestig. O dan baragraff 11A (Dosbarthu: adroddiadau cyllid llywodraeth leol) o'r un Atodlen, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru nodi yn yr adroddiad y sail (y sail ddosbarthu) a ddefnyddir er mwyn dosbarthu'r swm sydd i'w ddosbarthu ymhlith yr awdurdodau derbyn.